eiriolaeth
Y Rhaglen Edau Euraidd
Galluogi barn, dymuniadau a theimladau

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

# Pwysigrwydd Eiriolaeth 5

## *Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i bobl hŷn yng Nghymru*



**Tachwedd 2016**

# 1. Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cynnwys | 2 |
| 2. | Cydnabyddiaeth | 3 |
| 3. | Crynodeb Gweithredol | 4 |
| 4. | Cyflwyniad | 10 |
| | Methodoleg | 10 |
| 5. | Ymwrymiad Age Cymru i Eiriolaeth | 12 |
| | Cymru Oed Gyfeillgar | 13 |
| | Y Rhaglen Eiroli Edau Euraidd | 13 |
| 6. | Datblygiadau Cenedlaethol mewn Eiriolaeth | 15 |
| | Deddf Gwasanaethau a Llesiant Cymru (2014) | 15 |
| | Adnoddau Dysgu Eiriolaeth | 16 |
| | Deddf Rheoleiddio ac Adolygu Gofal Cymdeithasol (2016) | 17 |
| | Fframweithiau Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth | 18 |
| | Adroddiadau a Dogfennau Defnyddiol | 20 |
| 7. | Dadansoddiad | 21 |
| | Gwasanaethau eirioli a ariennir yn benodol i bobl hŷn yng Nghymru | 21 |
| | Gwasanaethau eirioli i grŵp cleient ehangach ond cefnogir pobl hŷn fel rhan o'r gwasanaeth | 22 |
| | Iaith | 22 |
| | Ansawdd a Safonau | 23 |
| | Arian a Chynaliadwyedd | 23 |
| | Diogelu | 25 |
| | Casgliad ac argymhellion | 26 |
| Atodiad 1 – Pwysigrwydd Eiriolaeth 5: Canlyniadau Data | | 28 |

# 2. Cydnabyddiaeth

Mae Age Cymru'n ddiolchgar i holl ddarparwyr y gwasanaeth eirioli a gymerodd amser i gwblhau'r arolwg ar lein ac i'r rhai hynny a gytunodd i'r corff gysylltu â nhw er mwyn cael rhagor o ymatebion manwl i'r rhai o'r materion a godwyd.

Hoffem hefyd ddiolch i bawb a gynorthwyodd i baratoi i'r arolwg fynd yn fyw ac i gynhyrchu'r adroddiad. Y rhain yw Ffion Jones, Cynorthwy-ydd y Rhaglen, Age Cymru, a thîm yr Edau Euraidd, yn arbennig felly,Huw Davies a Carys Griffiths.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Louise Hughes
Rheolwraig y Rhaglen Edau Euraidd
Age Cymru
St Andrews Park
Queen's Lane
Parc Diwydiannol Bromfield
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1XB

01352 706228

louise.hughes@agecymru.org.uk

Neu am ymholiadau cyffredinol:

Age Cymru
Tŷ John Pathy
13/14 Neptune Court
Vanguard Way
Caerdydd
CF24 5PJ

02920 43 1555



Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Swyddfa gofrestredig fel yr uchod. ©Age Cymru 2016

# 3. Crynodeb Gweithredol

Mae eiriolaeth annibynnol yn wasanaeth hanfodol i unigolion sy'n sicrhau bod yr unigolyn (a'u canlyniadau llesiant) yn ganolog i waith gwasanaethau cymorth. Mae eiriolaeth annibynnol yn rhoi llais, dewis a rheolaeth i ddinasyddion gyflawni eu canlyniadau llesiant.  Rhwng y cyfnod rhwng Pwysigrwydd Eiriolaeth 4 a'r adroddiad hwn sef Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 gwelwyd datblygiadau sylweddol yn y maes eiriolaeth annibynnol.  Diffinia'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 eiriolaeth fel hawl i bob unigolyn yng Nghymru dan amgylchiadau penodol, gan gynnwys (ond nid yn unig) asesu, cynllunio gofal, adolygu a diogelu.

Mae'r Cod Ymarfer (Rhan 10, Eiriolaeth) yn nodi bod:

Eiriolaeth yn helpu pobl i ddeall sut allant gyfranogi, cyfrannu a chymryd rhan, a sut allant arwain neu gyfarwyddo'r broses os oes modd.[1]  Er mwyn bod â llais a rheolaeth, mae'n rhaid i unigolyn allu teimlo ei fod yn bartner cyfartal gwirioneddol wrth ryngweithio â gweithwyr proffesiynol.[2]  Dylid ystyried eiriolaeth yn elfen gynhenid o'r Ddeddf sy'n sicrhau bod gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar bobl a'u llesiant.[3]

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar bob math o eiriolaeth sy'n cefnogi oedolion yng Nghymru er mwyn darparu cipolwg cyffredinol ar y dirwedd eiriolaeth.

### Darganfyddiadau ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 4

- Gwelwyd cwymp o 17% yn y nifer o wasanaethau eiriolaeth (o 23 i 19) i bobl hŷn yn benodol ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 4.
- Gwelwyd cynnydd o 69% yn y gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth i grŵp cleientiaid ehangach.  Mae hwn yn gynnydd o 26 i 44 o wasanaethau.
- Mae yna 107 o eiriolwyr cyflogedig llawn amser yn gweithio ar draws Cymru, gyda 20 o'r rhain yn darparu eiriolaeth yn benodol ar gyfer pobl hŷn.
- Mae yna 66 o eiriolwyr cyflogedig rhan amser gyda 23 o'r rhain yn darparu eiriolaeth yn benodol ar gyfer pobl hŷn.
- Mae yna 66 o eiriolwyr gwirfoddol yn gweithio mewn amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth ar draws Cymru.  Mae hyn yn gynnydd o 22%.
- Mae yna 37 yn llai o eiriolwyr cyflogedig a 23 yn llai o eiriolwyr gwirfoddol sy'n cefnogi pobl hŷn yn benodol nag yr adroddwyd yn yr adroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth 4.

[1] Cod Ymarfer Rhan 10.  Tudalen 8.  Paragraff 22.
[2] Cod Ymarfer Rhan 10.  Tudalen 7.  Paragraff 16.
[3] Cod Ymarfer Rhan 10.  Tudalen 8.  Paragraff 22.

- Y cyfanswm o bobl hŷn a gafodd eu cefnogi gan yr ymatebwyr dros y 12 mis diwethaf oedd 6412, sy'n gynnydd o dros 900 o'i gymharu ag adroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth 4.
- Ac edrych tua'r dyfodol, mae'r nifer o wasanaethau sy'n credu y bydd eu cyllid yn aros yr un peth neu'n cynyddu wedi gostwng i 53% o'i gymharu i 63% yn adroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth 4.
- Dim ond mewn 17 o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru y mae yna wasanaethau penodol i bobl hŷn, gostyngiad o 21 yn adroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth 4. Fodd bynnag, mae yna wasanaethau i grŵp cleient ehangach ym mhob ardal awdurdod lleol.

## Nifer yr ymatebwyr a gwasanaethau

| | Pwysigrwydd Eiriolaeth 4 2013 | Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 2016 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr** | 22 | 22 |
| **Nifer y gwasanaethau sy'n cael eu cyllido yn benodol ar gyfer pobl hŷn** | 23 | 19 |
| **Nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn** | 15 | 13 |
| **Nifer y gwasanaethau eiriolaeth eraill a gyllidir gyda phobl hŷn yn rhan o'r grŵp cleient** | 26 | 44 |
| **Nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn** **(Noder bod y gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau statudol eraill megis Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol [IMCA] ac Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol [IMHA])** | 12 | 15 |

(Noder y gall un darparwr gynnig mwy nag un gwasanaeth eiriolaeth a bydd gan rhai gwasanaethau yn benodol ar gyfer pobl hŷn yn ogystal â gwasanaethau ar gyfer grŵp client ehangach)

## Staff a Gwirfoddolwyr Eiriolaeth

| | Pwysigrwydd Eiriolaeth 4 2013 | | Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 2016 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau Pobl Hŷn | Pob math o wasanaeth | Gwasanaethau Pobl Hŷn | Pob math o wasanaeth |
| **Llawn Amser** | 34 | 33 | 20 | 87 |
| **Rhan Amser** | 46 | 25 | 23 | 43 |
| **Gwirfoddol** | 53 | 1 | 30 | 36 |

Mae'r canfyddiadau ar yr olwg gyntaf yn awgrymu darlun llewyrchus gyda chynnydd yn y niferoedd cyffredinol o eiriolwyr a'r nifer o ddinasyddion sy'n cael cefnogaeth gan y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, mae nifer o sefydliadau a ymatebodd wedi aros yr un fath ac mae'r ardal ddaearyddol a gwmpesir gan y gwasanaethau eiriolaeth i bobl hŷn wedi crebachu. Mae hyn yn arwain at fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer dinasyddion a "loteri cod post" o wasanaethau. Mae Age Cymru yn pryderu'n arbennig gan fod gan Gymru boblogaeth hŷn sy'n parhau i dyfu; mae llawer o ddinasyddion hŷn yn profi anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth, ac mae ganddynt fwy a mwy o resymau dros fod angen eiriolwr. Mae'n ymddangos, er bod yna nifer cynyddol o bobl hŷn sydd angen gwasanaethau eiriolaeth, mae yna argaeledd llai arbenigol ar draws rhannau o Gymru.

## Cyllid a chynaliadwyedd

- Nododd dros 60% o ddarparwyr fod gan y cyllid ar gyfer eu gwasanaethau presennol lai na blwyddyn ar ôl. Nid oedd 30% arall yn gwybod beth fyddai eu trefniadau cyllido yn y dyfodol.
- 10% yn unig oedd wedi sicrhau cyllid ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth am 3 blynedd neu fwy.

Mae canlyniadau ein harolwg yn rhoi darlun cymysg. Ar y naill law, mae cyfanswm yr eiriolwyr wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae nifer yr eiriolwyr (gwirfoddol a chyflogedig) sy'n gweithio'n benodol gyda phobl hŷn wedi gostwng o 133 i 73. Mae gostyngiad o 45% yn y nifer o eiriolwyr yn peri pryder wrth ei ystyried yng ngoleuni tueddiadau demograffig yng Nghymru[4]. Ar ben hynny, dylid ystyried hyn ochr yn ochr â'r 88.5% o wasanaethau sy'n disgwyl i'w cyllid aros yr un fath neu ostwng (41%

[4] http://bit.ly/2fBTlJy

aros yr un fath, 47% gostwng, dod i ben neu ddim yn gwybod) yn ystod y 12 mis nesaf. Roedd sylwadau'r ymatebwyr ynghylch y mater hwn yn cynnwys "eleni rydym yn gweithredu ar ostyngiad o 10% mewn cyllid" ac "aros am ymrwymiad gan yr Awdurdod Lleol" sy'n dangos yn glir natur beryglus cyllid a'r straen mae'n ei roi ar wasanaethau a dinasyddion fel ei gilydd.

### Ansawdd a safonau

- Nododd yr holl ddarparwyr eu bod nhw'n cwrdd â'r cod ymarfer eiriolaeth a'r set o safonau.
- Mae 40% o'r ymatebwyr wedi ennill y Marc Perfformiad o Ansawdd ac mae 30% yn gweithio tuag at hynny. Nododd y 30% arall nad oedd ganddynt y Marc ac nad oeddynt yn gweithio tuag at ei ennill.
- Mae gan bron i 70% o'r holl eiriolwyr (cyflogedig a gwirfoddol) gymhwyster Eiriolaeth City & Guilds, gyda nifer ohonynt yn gweithio tuag at y diploma llawn.

Mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 a'i chodau cysylltiedig yn cael eu drafftio â'u hanfon allan am ymgynghoriad. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd gwasanaethau IPA wedi'u comisiynu yn dod yn wasanaethau rheoledig ac oherwydd hynny bydd cyfarwyddebau clir ynghylch yr hyn a ddiffinnir fel gwasanaeth IPA rheoledig yn dod i rym erbyn 2018. Mae'r arolwg yn dangos bod llawer o wasanaethau eisoes yn meddu ar farc perfformiad o ansawdd ac yn cwrdd â'r cod ymarfer . Mae hyn yn dangos bwriad ac ymrwymiad gan y sector eiriolaeth i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

### Iaith

Wrth ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn cael eu clywed a'u dymuniadau'n cael eu parchu, mae angen cynnig cefnogaeth trwy'r cyfrwng y maent yn fwyaf cyfforddus ag ef boed hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Canfu'r arolwg bod gan 70% o ddarparwyr eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg. Er gwaethaf hyn, dim ond dau darparwr wnaeth adrodd fod y gefnogaeth a ddarperir trwy'r Gymraeg yn uwch na 10%, gyda llawer yn datgan na chafwyd un cais am gefnogaeth trwy'r iaith Gymraeg. Wrth i Awdurdodau Lleol ddilyn argymhellion gan Lywodraeth Cymru ynghylch Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011), disgwylir y bydd y gofyniad i ddarparwyr eiriolaeth ddarparu gwasanaethau yn ddwyieithog yn dod yn gryfach.

Mae dros 50% o ddarparwyr yn datgan eu bod wedi darparu cefnogaeth eiriolaeth mewn llawer o ieithoedd eraill megis Mandarin, Tsieinëeg, Pwyleg a Pwnjabeg.

## Casgliad

Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 wedi rhoi cipolwg diweddar o’r ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru ar gyfer oedolion gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn. Mae'n awgrymu bod y nifer cyffredinol o eiriolwyr wedi parhau i godi ond yn mynegi pryder mewn rhai meysydd, gan gynnwys gostyngiad mewn darparwyr arbenigol a bylchau mewn argaeledd daearyddol.

Rhywbeth sy’n destun pryder arbennig i Age Cymru yw'r gostyngiad yn nifer y darparwyr eiriolaeth arbenigol ac eiriolwyr ar gyfer pobl hŷn.

Mae’r dulliau o gomisiynu eiriolaeth ledled Cymru yn amrywiol ac ar wahanol gamau o ddatblygiad ar hyn o bryd. Ymddengys mai’r hyn sydd wedi digwydd mewn rhai ardaloedd yw bod contractau yn cael eu dyfarnu i sefydliadau a all ddarparu gwasanaeth i'r holl oedolion yn hytrach na darparwyr arbenigol unigol a allai egluro'r data yr ydym yn ei gyflwyno.

Tra bod y nifer o ddinasyddion sydd wedi cael cefnogaeth eiriolaeth wedi parhau i godi, mae nifer y darparwyr wedi gostwng i lefelau is nag yn 2011 fel yr adroddwyd yn yr adroddiad  Pwysigrwydd Eiriolaeth 3. Gallai hyn awgrymu symud oddi wrth ddarparwyr eiriolaeth arbenigol yn cael eu comisiynu i ddarparwr sy'n darparu i bob oedran ar draws ardal ddaearyddol ehangach. Gallai diwedd y cyllid ar gyfer y prosiectau a gyllidwyd gan Raglen Llawn BYWYD y Gronfa Loteri Fawr a gafodd eu cofnodi yn adroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth 4 hefyd fod yn rheswm dros y nifer is hwn o ddarparwyr yn yr adroddiad hwn.

Yn sgil y dyletswyddau newydd a osodir ar Awdurdodau Lleol, mae'n bosibl rhagweld y bydd y galw am wasanaethau eirioli yn tyfu ac felly mae argaeledd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn flaenoriaeth i bawb sy’n gysylltiedig. Mae'r cymysgedd o ffynonellau cyllid, statudol a chyllidwyr grantiau wedi aros oddeutu'r un fath ers 2013. Bydd adroddiadau'r dyfodol yn ystyried pa un a yw'r dyletswyddau newydd yn cael effaith ar nifer y gwasanaethau a gomisiynir ac y cyllidir gan grantiau.

Mae diogelu yn parhau i fod yn rhan sylfaenol o'r gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir gan ymatebwyr yr arolwg hwn. Mae diogelu yn faes allweddol lle mae gan ddinasyddion yr hawl i wasanaethau IPA (mewn rhai amgylchiadau) ac adroddodd holl ymatebwyr yr arolwg eu bod wedi cefnogi cleientiaid a oedd wedi cael eu cam-drin yn y 12 mis diwethaf. Mae'r ymatebwyr wedi adrodd cynnydd yn nifer yr achosion o gamdriniaeth gorfforol y maent wedi cefnogi cleientiaid i ddelio â hwy, gyda chamdriniaeth ariannol a chamdriniaeth emosiynol/ seicolegol yr ail mwyaf cyffredin. Mae Age Cymru yn cefnogi hawl unigolion i fyw mewn amgylchedd diogel, yn rhydd rhag niwed a chamdriniaeth. Bydd yr hawl i eiriolaeth i rai sydd wedi eu cam-drin yn eu galluogi nhw i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau ac i fod yn ganolog i’r broses ddiogelu, gan sicrhau eu bod yn cymryd rhan lawn ac yn cael eu cefnogi i fod yn rhydd rhag niwed yn y dyfodol.

Mae Age Cymru wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad y sector eiriolaeth annibynnol yng Nghymru ac yn ei weld fel arf hollbwysig i sicrhau lles pob dinesydd, nid dim ond pobl hŷn. Mae Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraid Age Cymru wedi cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithrediad Ran 10 (eiriolaeth) o’r "Ddeddf" mewn ffordd strategol ac unedig, sy'n ceisio datblygu gwasanaethau cyson a chynaliadwy ar draws Cymru gyfan. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Eiriolaeth Edau Euraid drwy e-bostio goldenthreadadvocacy@agecymru.org.uk.

Troednodyn:

Mae ymatebwyr yr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth yn hunan ddethol. Mae ymateb yn seiliedig ar ba un a ydynt yn darparu gwasanaethau eiriolaeth a gyllidir yn benodol ar gyfer neu'n cynnwys pobl hŷn fel rhan o'u grŵp cleientiaid. Er gwaethaf pob ymdrech ni allwn warantu bod gennym ddata gan 100% o’r darparwyr. Gallai hyn hefyd esbonio pam ei bod yn ymddangos nad oes gan rai ardaloedd unrhyw ddarpariaeth eiriolaeth o gwbl.

Roedd data a gasglom yn hydredol, ac felly’n adlewyrchu'r arolygon eraill yn ein cyfres, ond rydym wedi tynnu data i baentio’r darlun llawnaf o wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, gan wneud y data yn ddefnyddiol i gomisiynwyr, darparwyr a dinasyddion fel ei gilydd. Mae setiau data llawn ar gael ar ein gwefan.

# 4. Cyflwyniad

Rydym yn falch o gyflwyno Pwysigrwydd Eiriolaeth 5, ein pumed adroddiad ar ddarparu eiriolaeth i bobl hŷn yng Nghymru.

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae Age Cymru wedi bod yn adolygu pa wasanaethau sydd ar gael, materion ynghylch ariannu a chynaliadwyedd, ansawdd gwasanaethau a hyfforddi eiriolwyr, eiriolaeth a'i rôl mewn diogelu, hygyrchedd o ran iaith, a gwybodaeth am newidiadau deddfwriaethol mewn eiriolaeth a dealltwriaeth ohonynt.

Defnyddiwyd ein tystiolaeth i ddylanwadu ar arianwyr grantiau, comisiynwyr a Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru. Rydym wedi galw am roi'r gorau i ddefnyddio'r côd post i sicrhau gwasanaeth, am ddull gweithredu mwy cyson o ran ariannu, am fwy o gynaliadwyedd o'r sector ac, yn bwysicaf, am i'r bobl y mae angen cefnogaeth y gwasanaeth hwn arnynt gael mynediad lle bynnag y bônt yng Nghymru. Galwasom hefyd am ddyletswydd statudol newydd ar gyfer eiriolaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014.

Ers ein hadroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth cyntaf yn 2007 rydym wedi gweld cynnydd cyson yn nifer yr eiriolwyr sy'n cefnogi pobl hŷn. Yn 'Pwysigrwydd Eiriolaeth 4' (2013) bu i ni gydnabod bod gan fudiad sylweddol cronfa AdvantAGE y Loteri Fawr ran fawr i'w chwarae yn hyn lle'r oedd naw sefydliad yn gallu datblygu gwasanaethau eirioli i bobl hŷn ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Yn anffodus roedd cyfyngiadau amser ar yr arian hwn ac er gwaethaf ymdrechion gorau'r sefydliadau a ariannwyd nid yw'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hynny'n bodoli mwyach. Mae hyn wedi golygu bod y sector wedi colli eiriolwyr hyfforddedig, cymwys a phrofiadol ac y bu effaith sylweddol ar y gwasanaethau eirioli sydd ar gael ar draws Cymru.

Bydd Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 yn cyflwyno'r canfyddiadau o'n harolwg mwyaf diweddar. Bydd yn edrych ar y canfyddiadau yn wyneb y cyfnod pontio yr ydym ynddo, o gwblhau'r prosiectau ariannu grantiau graddfa fawr i ddechrau'r prosesau comisiynu newydd i weithredu'r ddyletswydd eiriolaeth newydd dan y Ddeddf. Bydd Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru.

## Methodoleg

Defnyddiwyd arolwg ar lein i ddosbarthu ein cwestiynau i ddarparwyr. Mae gennym wybodaeth helaeth am y sector eirioli yng Nghymru ond bu i ni gynnal ymarfer pen desg pellach i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chymaint o ddarparwyr ag oedd modd. Dosbarthwyd yr arolwg hefyd trwy Gynghorau Gwirfoddol y Sir i sicrhau y cyrhaeddid cymaint o bobl ag oedd modd.

Mae ymatebwyr i'r arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth yn hunanddewisol. Seilir ymateb ar a ydynt yn darparu gwasanaethau eirioli a ariennir ac sy'n benodol i bobl hŷn

neu'n eu cynnwys fel rhan o'u grŵp cleient. Er gwaethaf yr holl ymdrechion, ni allwn warantu bod gennym ddata gan 100% o ddarparwyr. Gallai hyn, hefyd, esbonio pam yr ymddengys nad oes gan rai ardaloedd ddarpariaeth eirioli o gwbl.

Roedd y data a gasglom yn hydredol ac, felly, roedd yn adlewyrchu'r arolygon eraill yn ein cyfres; rydym wedi cael data sy'n rhoi'r llun mwyaf cyflawn o wasanaethau eirioli yng Nghymru, gan wneud y data'n ddefnyddiol i gomisiynwyr, darparwyr a dinasyddion.

Yn wreiddiol gyrasom yr arolwg allan yn Rhagfyr 2015. Wedi sefydlu'r Rhaglen Edau Euraidd yn Ebrill 2016 casglwyd gwybodaeth ychwanegol am ddarparwyr, gan sefydlu pwy oedd yn parhau i ddarparu eiriolaeth ac unrhyw ddarparwyr newydd a allai fod wedi ennill contractau newydd gydag awdurdodau lleol a chysylltom yn uniongyrchol â chymaint ag y gallasom â chyda'r rhai yr oeddem eisoes wedi cael ymatebion ganddynt. Roeddem yn ymwybodol bod llawer yn newid yn y sector eirioli ac mae gennym gyfrifoldeb i roi cipolwg clir a chywir yn yr adroddiad hwn.

Daeth rhai ymatebion i law gan sefydliadau nad oeddynt mewn gwirionedd wedi'u hariannu i ddarparu eiriolaeth ond oedd yn teimlo'n gryf eu bod mewn rhyw ffordd yn darparu eiriolaeth i'w cleientiaid heb gael eu hariannu i wneud hynny. Roeddynt yn teimlo'u bod yn ymrymuso'u cleientiaid, yn amddiffyn eu hawliau ac yn eu cefnogi trwy amseroedd anodd.

Nid yw'r ymatebwyr hyn wedi'u cynnwys yn y ffigyrau terfynol yn yr adroddiad hwn gan ein bod yn gofyn am wybodaeth gan wasanaethau oedd yn wirioneddol cael eu hariannu i roi eiriolaeth. Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn cydnabod y gwerth a'r mewnbwn y mae'r sefydliadau hyn yn eu rhoi i'r sector eirioli, fodd bynnag rydym hefyd yn cydnabod bod llawer o ansicrwydd yn parhau ynghylch yr hyn y mae'r term eiriolaeth yn ei olygu mewn gwirionedd. Mae darn pwysig o waith yn parhau i fod angen ei wneud i sicrhau fod arianwyr, darparwyr a'r bobl y bydd o bosib angen defnyddio gwasanaethau eirioli arnynt, yn llwyr ddeall yr hyn yw eiriolaeth a'r gwahanol rolau y gall eiriolaeth eu chwarae yn cynnwys hunaneirioli, eiriolaeth cymheiriaid, grŵp, anffurfiol, ffurfiol a phroffesiynol annibynnol.

# 5. Ymrwymiad Age Cymru i Eiriolaeth

Mae Age Cymru wedi dangos ymrwymiad mawr i ddatblygiad a chynaliadwyedd gwasanaethau eirioli annibynnol i bobl hŷn a dinasyddion yn gyffredinol dros y deg mlynedd diwethaf.

O 2006 hyd 2016 roedd Rhaglen Diogelu Age Cymru ar flaen y gad wrth ddylanwadu ar y rhaglen hon. Cynhyrchiodd adroddiadau tystiolaeth o ba gwasanaethau oedd ar gael yn y gyfres Pwysigrwydd Eiriolaeth. Amlygodd yr angen am y gwasanaethau cefnogi pwysig hyn gyda Gweinidogion, rhanddeiliaid a phobl hŷn mewn cynadleddau, gweithdai, cyfarfodydd grwpiau ymgynghorol arbenigol ac yn ein cylchlythyrau a'n e-fwletinau. Cynhaliwyd cynadleddau proffil uchel i ddod ag ystod o bobl o ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig ynghyd. Rhannodd y gynhadledd wybodaeth, arbenigedd, arfer dda a rhoes i'r gynulleidfa gyfleoedd i ddysgu gan y gorau ym maes eiriolaeth a diogelu.

Datblygodd y Tîm Diogelu a'r Tîm Materion Cyhoeddus Faniffesto Atal Cam-drin Pobl Hŷn yn galw, ymhlith pethau eraill, am hawl i gael eiriolwyr annibynnol i bobl sy'n cael eu cam-drin neu wedi cael eu cam-drin. Aeth y Siarter Dileu Camdriniaeth ymhellach a galw am ddyletswydd i roi eiriolaeth annibynnol ac rydym mor falch bod hon bellach wedi'i hymgorffori yn y ddeddf newydd, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014.

Mae Age Cymru'n cefnogi'r sector eirioli hefyd. Mae'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Pobl Hŷn yn rhwydwaith llewyrchus sy'n galluogi eiriolwyr ar draws ystod o wasanaethau, yn statudol ac anstatudol, i ddod ynghyd pob chwarter. Mae'n fforwm ar gyfer dysgu, rhannu, edrych ar faterion ac astudiaethau achos a bod â'r cyfle i ddysgu oddi wrth arbenigwyr ar draws ystod eang o bynciau a rhannu profiadau gyda nhw er mwyn gwella eu gwybodaeth a chreu capasiti i gefnogi eu cleientiaid. Cafodd y rhwydwaith hwn ei roi ar restr fer am wobr eiriolaeth genedlaethol yn ddiweddar am y gefnogaeth orau mewn eiriolaeth. Er na enillodd y rhwydwaith, roedd yn anrhydedd mawr bod ymhlith y tri olaf o ran y bobl a'r grwpiau a enwebwyd.

Gan symud ymlaen, mae Age Cymru wedi sefydlu'r Rhaglen Eirioli Edau Euraidd (gweler isod) ac mae eiriolaeth wrth graidd ei gweledigaeth am Gymru Oed Gyfeillgar.

## Cymru Oed Gyfeillgar

**Gweledigaeth a Bwriad**

Rhennir gyda'n partneriaid cenedlaethol ar draws y Deyrnas Unedig ein gweledigaeth am fyd lle mae pobl yn ffynnu.

Ein bwriad yw gwella bywyd i bobl hŷn.

**Strategaeth Age Cymru – Creu Cymru oed gyfeillgar**

Er mwyn creu gwlad sy'n wirioneddol 'oed gyfeillgar', lle gall pobl hŷn ffynnu, byddwn yn datblygu'n gwaith yn yr wyth maes allweddol hyn:

(1) **HAWLIAU A CHYFRANOGI**. "Gallaf ddisgwyl i gyflogwyr, darparwyr gwasanaeth a'r cyhoedd fy nghynnwys i a gwybod sut i'w wneud". Caf fy ngwarchod rhag rhagfarn ac eithrio gan hawliau sifil a dynol cynhwysfawr y mae modd eu gorfodi".

(2) **CYTBWYS A CHYNWYSEDIG.** "Mae gennyf fynediad at y lefel iawn o wybodaeth, cyngor ac eiriolaeth pan fo'u hangen arnaf".

(3) **CYNHWYSIAD CYMDEITHASOL**. "Mae gennyf fynediad at weithgareddau cymdeithasol a chyfleoedd dysgu pan fo'u heisiau arnaf."

(4) **GOFAL CYMDEITHASOL O ANSAWDD**. "Gallaf gael at ofal a chefnogaeth gymdeithasol o safon ragorol pe byddai eu hangen arnaf, a'r rheiny wedi'u cyfarwyddo gennyf i"

(5) **GOFAL IECHYD O ANSAWDD**. "Gallaf ddeall a rheoli unrhyw broblem iechyd sydd gennyf a disgwyl gofal iechyd o'r safon uchaf".

(6)**CYNHWYSIAD ARIANNOL**. "Mae gennyf ddigon o arian i ddiwallu fy anghenion a byw bywyd o ansawdd dda".

(7) **CARTREFI A CHYMUNEDAU** "Gallaf fyw yn fy nghartref a'm cymuned heb rwystrau amgylcheddol neu gymdeithasol i'm hatal rhag cymryd rhan"

(8) **CLUDIANT**. 'Gallaf gael mynediad at y cludiant y mae ei angen arnaf i'm cynorthwyo i gael o gwmpas"

## Y Rhaglen Eirioli Edau Euraidd

Mae'r Rhaglen Eirioli Edau Euraidd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ers tair blynedd i redeg law yn llaw â gwaith gweithredu Rhan 10 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i chefnogi.

Dyma nodau allweddol y rhaglen:

- cefnogi gwaith comisiynu eiriolaeth broffesiynol trwy ddull gweithredu cynaliadwy a strategol.
- gwella nifer y gwasanaethau eirioli sydd ar gael i oedolion ar draws Cymru
- gwella llesiant unigolion trwy eiriolaeth a rhoi iddynt lais cryfach

Bydd y rhaglen genedlaethol hon yn:

- cefnogi timau rheoli/comisiynu iechyd a gofal cymdeithasol strategol a gweithwyr proffesiynol rheng flaen i ddeall eu cyfrifoldebau ynghylch eiriolaeth dan y Ddeddf
- cefnogi gwaith datblygu modelau cynaliadwy ar gyfer cyflawni gwasanaeth eirioli.
- gweithio gyda darparwyr gwasanaeth newydd a rhai sydd eisoes yn y maes i sicrhau eu bod yn barod gyda thendr ar gyfer prosesau comisiynu eiriolaeth statudol
- creu fframwaith ar gyfer cydweithio rhwng cyrff statudol a darparwyr gwasanaeth i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon er mwyn cefnogi canlyniadau llesiant
- gweithio gyda grwpiau cynrychioladol o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr posib i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth yn ei holl ffurfiau, i reoli canlyniadau eu llesiant
- hyrwyddo dulliau gweithredu cadarnhaol o ran llesiant a chefnogi gwelliannau i ddiogelu trwy roi llais cryfach i bobl â nodweddion gwarchodedig.

Ar ddiwedd y rhaglen bydd yr holl randdeiliaid:

- â dealltwriaeth a gwybodaeth well am werth eiriolaeth
- â'r sgiliau cyfathrebu i hyrwyddo'r angen i ddatblygu gwasanaethau eirioli a nodi lle gellid blaenoriaethu eiriolaeth orau
- yn gallu defnyddio arfer orau mewn eiriolaeth fel rhan annatod o fwriadau comisiynu.

Rhaglen bartneriaeth o waith yw'r Rhaglen Eirioli Edau Euraidd. Y partneriaid yw Age Cymru, Age Connects Cymru a Diverse Cymru a nhw yw bwrdd y rhaglen sy'n goruchwylio cyfeiriad strategol a gweithrediad y gwaith. Age Cymru yw'r sefydliad arweiniol ac, yn hynny o beth, sy'n cyflogi'r tîm.

Mae modd cysylltu â'r tîm fel a ganlyn:

E-bost y tîm cyffredinol: goldenthreadadvocacy@agecymru.org.uk

Cyfeiriad y wefan yw www.agecymru.org.uk/advocacy

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales


age connects wales.

diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# 6. Datblygiadau Cenedlaethol mewn Eiriolaeth

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) - "y Ddeddf"




Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar y 6ed o Ebrill 2016 a bydd yn cael effaith sylweddol ar fathau gwasanaethau'r awdurdodau lleol a ddarperir ac ar sut y cânt eu cyflawni yng Nghymru. Mae'n rhoi pobl union wrth galon gwaith cyflawni gwasanaeth. Mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol, mewn amgylchiadau penodol, sicrhau bod gan unigolyn fynediad at eiriolaeth.

Yr hyn yw Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yw gwasanaeth a all gefnogi rhywun i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am eu llesiant a sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed, eu parchu a'u hystyried. Mae eiriolaeth yn cefnogi pobl i gael amddiffyn eu hawliau, mynegi eu barn, gwneud penderfyniadau ar bethau sy'n cael effaith arnynt ac, os oes rhaid, gynrychioli barn pobl mewn cyfarfodydd.

Mae'r dyfyniad isod wedi dod o Bennod 5 o Ran 10, Côd Ymarfer (Eiriolaeth)

22. Dylid ystyried eiriolaeth yn elfen gynhenid o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n sicrhau bod gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar bobl a'u llesiant. Mae eiriolaeth yn helpu pobl i ddeall sut y gallant gyfranogi, cyfrannu a chymryd rhan, a sut y gallant arwain neu gyfarwyddo'r broses os oes modd.

23. Drwy eiriolaeth, mae pobl yn bartneriaid gweithredol yn y prosesau gofal a chymorth allweddol sy'n nodi ac yn sicrhau atebion drwy wasanaethau ataliol; gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy; asesu; gofal a chymorth a chynllunio gofal; adolygu a diogelu.

24. Mae'r Ddeddf:-

- yn sicrhau mai'r person a'i ganlyniadau llesiant yw canolbwynt y fframwaith newydd hwn;
- yn sicrhau bod gan bobl lais a rheolaeth dros sicrhau'r canlyniadau hynny;
- yn cefnogi pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain;
- yn mesur llwyddiant y gofal a'r cynhorthwy hwn ar sail pob cyfraniad at
- lesiant; pobl, teuluoedd, cefnogwyr, gwasanaethau ffurfiol ac anffurfiol.

25. Er gwaethaf y rhwystrau y gall pobl eu hwynebu, mae’n **rhaid** i awdurdodau lleol gynnwys pobl i’w helpu i fynegi eu barn, eu dymuniadau a’u teimladau, eu cynorthwyo i bwyso a mesur opsiynau ac i wneud penderfyniadau am eu canlyniadau llesiant. Mae’r gofynion hyn yn berthnasol, waeth ble mae unigolyn yn byw, gan gynnwys yr ystâd ddiogeledd [5]

## Adnoddau Dysgu Eiriolaeth




Mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru, Prifysgol Abertawe a Martin Coyle (Cyn-brif Weithredwr Action for Advocacy) datblygodd Age Cymru ddeunyddiau dysgu sy’n cefnogi datblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â chefnogaeth a gwasanaethau eirioli yn wyneb Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a’r Côd Ymarfer ar gyfer Rhan 10 i’r rhai hynny sy’n gweithio (neu â’r posibilrwydd o weithio) ag eiriolwyr yn y gweithlu ehangach.

Mae’r modiwl hyfforddi’n ymwneud yn benodol ag Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. Edrycha ar Ran 10 y Ddeddf a sut mae Eiriolaeth yn ffitio i mewn â rhannau eraill o’r Ddeddf.

Datblygwyd y deunyddiau i greu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth â’r rhai a fyddai â’r potensial i weithio gyda gwasanaethau eirioli neu gyfeirio atynt.

Mae’r deunyddiau’n codi ymwybyddiaeth o rôl eiriolwyr, yn nodi pan fo’n briodol cyfeirio, pryd bod gan ymarferwyr ddyletswydd i gyfeirio ac yn cynorthwyo’r gweithlu ehangach i ddeall beth yw eiriolaeth a sut y gall fod o gymorth.

Mae’r gwaith dysgu’n edrych ar berthynas eiriolwyr ag unigolion a gwasanaethau ac yn egluro rôl y dysgwr yn y sefyllfaoedd hynny. Ceisia’r gwaith dysgu godi hyder dysgwyr i ddeall pryd a pham y gallent gyfeirio, cynyddu eu dealltwriaeth o’u dyletswydd gofal a’u dealltwriaeth ynghylch cyfrinachedd.

Mae modd gweld yr adnoddau dysgu trwy glicio ar y ddolen hon:

Cyngor Gofal Cymru | Adnoddau Dysgu Eiriolaeth

[5] Rhan 10, Côd Ymarfer (Eiriolaeth), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014

## Rheoliad Deddf Gofal Cymdeithasol (2016)

**Cefndir**

Pasiwyd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y 24ain o Dachwedd 2015 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar y 18fed o Ionawr 2016. Mae'n diwygio'r drefn reoleiddio ac arolygu ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Deddf 2016 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth yn eu lle trwy wneud rheoliadau, cyhoeddi canllawiau a rhyddhau codau ymarfer. Bydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru:

- ddiwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chefnogi er mwyn sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth
- diwygio'r drefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- ailenwi a rhoi pwerau newydd i Gyngor Gofal Cymru; a
- diwygio gwaith rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

**Diffiniad o Wasanaethau Eirioli**

Mae Adran 2(1)(g) y Ddeddf yn nodi gwasanaethau eirioli fel gwasanaeth reoledig. Mewn cydnabyddiaeth o ystod eang y gwasanaethau eirioli sydd ar gael i bobl, cymerodd Gweinidogion Cymru bwerau er mwyn manylu trwy reoliadau fath y gwasanaethau eirioli a ddaw o fewn cwmpas y Ddeddf.

Dan y Ddeddf bydd yn drosedd i berson ddarparu gwasanaeth reoledig heb fod wedi cofrestru.


Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith datblygu gyda grŵp technegol bychan o gynrychiolwyr ag arbenigedd, gwybodaeth dechnegol a phrofiad ymarferol o eiriolaeth. Mae'r Grŵp wedi nodi y dylai Gweinidogion Cymru gysoni'r diffiniad o wasanaethau eirioli dan Ddeddf 2016 â'r diffiniad o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel y nodir yn y côd ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag eiriolaeth dan Ran 10 a Rhannau perthynol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Rhan 10 Rhannau Perthynol | Eiriolaeth]

Mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn ymwneud â phartneriaeth un i un rhwng eiriolwr proffesiynol annibynnol sydd wedi'i hyfforddi ac sy'n gyflogedig i ymgymryd â'i rôl broffesiynol fel eiriolwr [ac unigolyn]. Gallai hyn fod ar gyfer un mater neu sawl mater. Rhaid i eiriolwyr proffesiynol annibynnol sicrhau fod barn unigolion yn cael ei chyfleu'n gywir waeth beth yw barn yr eiriolwr neu eraill, o ran yr hyn sydd orau i'r unigolion.

Mae hyn i adlewyrchu'r rolau y bydd Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol yn eu chwarae wrth gefnogi unigolyn i fynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau lle mae awdurdod lleol yn arfer swyddogaethau dan Ddeddf 2014.[6]

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae rheoliadau'n cael eu datblygu gyda golwg ar iddynt gael eu gweithredu a bod yn weithredol erbyn Ebrill 2019.




## Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth

Mae'r fframwaith hwn wedi'i gynhyrchu i ddarparwyr a chomisiynwyr eiriolaeth annibynnol i'w ddefnyddio i fesur ac arddangos effaith eiriolaeth – ar unigolion, y sector gofal iechyd a chymdeithasol, y gymuned ehangach ac ar y sector eirioli eu hun. Mae'n cyflwyno strwythur safonedig o feysydd effaith a chanlyniadau cysylltiedig i gynorthwyo i fesur a deall grym ac effaith darpariaeth eiriolaeth annibynnol, yn lleol ac yn genedlaethol. Ei nod yw cynorthwyo darparwyr eiriolaeth i gael tystiolaeth o arfer dda ac i gomisiynwyr a phobl sy'n defnyddio eiriolaeth i wybod a yw sefydliad yn cyflawni canlyniadau da i bobl. Bydd, felly, yn gwella'n dealltwriaeth o bwysigrwydd ac effaith eiriolaeth annibynnol yn ogystal â chefnogi sefydliadau eiriolaeth i wella eu heffeithlonrwydd.

Bwriad yr offeryn yw cael ei ddefnyddio gan wasanaethau eirioli a chomisiynwyr i fesur ansawdd ac effaith gwasanaeth eirioli. **Mae'n cyflwyno pedwar maes effaith.** Gall sefydliadau a chomisiynwyr ddefnyddio'r canlyniadau enghreifftiol a ddarperir neu ollwng y canlyniadau y maent eisoes yn eu mesur i'r meysydd effaith ehangach. Ei fwriad yw cael ei ddefnyddio law yn llaw ag arferion eirioli cyfredol a chefnogi sefydliadau i ganfod ffyrdd o dystiolaethu canlyniadau fel rhan o'u gwaith beunyddiol.

Mae'r pecyn cymorth cysylltiedig yn adnodd manwl ac yn ganllaw ymarferol i sefydliadau eirioli ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i ddiffinio, mesur a dadansoddi effaith a chanlyniadau a geir ac adrodd arnynt. Bydd y sefydliadau hynny nad oes ganddynt system cofnodi a mesur canlyniadau yn gweld y pecyn cymorth manwl hwn yn arbennig o ddefnyddiol.[7]

[6] Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru. Cam 1 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
[7] Fframwaith canlyniadau eiriolaeth: mesur effaith eiriolaeth annibynnol. NDTi. 2016

## Advocacy Action Alliance

Yn 2013 comisiynodd nifer o ddarparwyr eiriolaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ymarfer cwmpasu o amgylch yr angen a'r potensial am rwydwaith / llais cenedlaethol ar gyfer y sector, gan fod yn rhan o waith datblygu'r ymarfer hwn. Comisiynwyd y Sefydliad Iechyd Meddwl i gynnal y gwaith cwmpasu hwn a chyflwynodd yr adroddiad i gyfarfod agored o gynrychiolwyr y sector eiriolaeth ym Mehefin 2014.

Roedd cefnogaeth eang am lais unedig a chenedlaethol er mwyn cael cydraddoldeb yn y sector a darparu cyswllt cenedlaethol. Roedd cytundeb ynghylch yr angen i hyrwyddo eiriolaeth ac i'r sector allu cael dylanwad trwy lais torfol.
Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd yn 2014 i weithio tuag at hyn. Gofynwyd i'r rhai oedd yno enwebu ei hunain os oeddynt o'r farn y gallent gyfrannu/ lywio'r gwaith a'r rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Cytunodd y Sefydliad Iechyd Meddwl gynnal a hwyluso cyfarfod cychwynnol o'r grŵp llywio anffurfiol hwn ac mae'r Sefydliad wedi parhau i ddarparu rôl gefnogol a swyddogaethol i gynrychiolwyr y sector sy'n mynd yno. Cynigiodd nifer o bobl o ystod o sefydliadau eirioli fod yn rhan o'r grŵp llywio i edrych ar yr opsiynau ar gyfer datblygu llais torfol a gweithgareddau posib yn unol â'r ymarfer cwmpasu ac yna byddant yn mynd â'r cynigion yn ôl i'r sector.

Nod grŵp llywio'r gynghrair yw bod yn gynhwysol a chynrychioli'r sector. Daeth aelodau i mewn i'r grŵp trwy gyfarfodydd yr ymarferion cwmpasu yr aeth llawer iddynt lle rhoddwyd i bawb oedd yno gyfle i gymryd rhan ymhellach. Cytunodd y grŵp llywio ar strwythur dros dro o amgylch rheoli swyddogaethau a chynrychiolaeth o'r sector. Cyfansoddiad anfffurfiol sydd i'r pwyllgor llywio ei hun.

Corff sy'n ymestyn ar draws y sector eiriolaeth annibynnol yw'r gynghrair ac mae'n hyrwyddo dealltwriaeth a chydnabyddiaeth o rôl a chyfraniad eiriolaeth annibynnol a'r sector eirioli, mae'n rhoi gwybodaeth am eiriolaeth a gwasanaethau eirioli'n genedlaethol, yn sicrhau llais torfol cenedlaethol i'r sector eirioli sy'n cyfrannu at bolisïau ac arferion cenedlaethol ac yn dylanwadu arnynt.

Gwna hyn trwy gytuno i fod yn rhan o'r gynghrair a'i fwriad, gan hyrwyddo gwaith gweithredu o fewn sefydliadau sy'n aelodau a chefnogi gwaith datblygu a chyflawni rhaglenni gwaith a wneir ar y cyd.[8]

[8] Cylch Gorchwyl Advocacy Alliance Cymru

## Adroddiadau a Dogfennau Defnyddiol




Agorodd Cronfa Loteri FAWR Cymru ei chronfa AdvantAGE i wasanaethau eirioli yn 2011. Mewn ymateb i hyn, arianwyd naw gwasanaeth ar draws Cymru. Comisiynwyd Sefydliad Cymru er Gofal Iechyd a Chymdeithasol ym Mhrifysgol De Cymru, ac eraill, i werthuso'r gwasanaethau hyn.

Gan ychwanegu at hyn, ceisiwyd arian ychwanegol ac fe'i cafwyd i gwblhau astudiaeth gwmpasu, gyda'r bwriad o wneud ymholiadau ynghylch gwaith yr eiriolwyr annibynnol a pha mor debyg neu wahanol oedd eu gwaith i hwnnw yn y sector statudol mewn tair ffordd:


1. A yw'r eiriolwyr annibynnol a arweinir gan y sector gwirfoddol wedi cyflawni gwell canlyniadau i bobl hŷn o'u cymharu â'r asiantaethau yn y sector statudol?
2. A yw'r eiriolwyr annibynnol a arweinir gan y sector gwirfoddol wedi cyflawni'r canlyniadau hynny yn fwy amserol o'u cymharu â'r asiantaethau yn y sector statudol?
3. A yw'r eiriolwyr annibynnol a arweinir gan y sector gwirfoddol wedi cyflawni'r canlyniadau hynny mewn amser mwy effeithiol o'u cymharu â'r asiantaethau yn y sector statudol?

Mae'r canlyniadau ar gael yma

[Age Connects Wales | Time for Advocacy?]

## Cylchlythyr y Rhaglen Eirioli Edau Euraidd

Cyhoeddir y newyddlen hon bob dau fis gan y Tîm Eirioli Edau Euraidd. Mae'n rhoi gwybodaeth, diweddariadau ac arferion da diddorol mewn eiriolaeth. Bydd yn rhoi dolenni i ddogfennau, hyfforddiant, gwefannau a newyddion defnyddiol, i gyd ar eiriolaeth.



eiriolaeth advocacy
Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

**Advocacy Newsletter**

September 2016 Issue no. 1

Welcome to the first edition of our new advocacy newsletter which will be produced on a bi-monthly basis and will bring you information, updates, good practice, and provide links to useful documents, training, websites and news all about advocacy!

***The Golden Thread Advocacy Programme***

Our first good news is that the Welsh Government have funded Age Cymru to deliver the Golden Thread Advocacy Programme in partnership with Age Connects and Diverse Cymru. It will support the implementation of Part 10 (Advocacy) of the Social Services and Well-being Wales Act 2014. The programme covers advocacy not only for older people but for all adults over the age of 18, picking up where the remit of the Strategic Leadership Group for Children's Advocacy ends; which means that, between us, we have the whole population covered!

The Social Services and Well-being (Wales) Wales Act 2014 came into force on the 6th April 2016 and it will have a big impact on the types of Local Authority services that are delivered and how they are delivered in Wales. It puts people right at the heart of service delivery. It also means that in certain circumstances local authorities must ensure that an individual has access to advocacy.

Independent Professional Advocacy is a service that can support someone to participate fully in decisions about their well-being and ensure that their views, wishes and feelings are heard, respected and taken account of. Advocacy supports people to have their rights upheld, to express their views and opinions, to make decisions about things that affect them, and if necessary to represent people's views at meetings.

The Welsh Government is funding The Golden Thread Programme for 3 years to:

- improve the well-being of adults through advocacy and to give them a stronger voice
- improve the availability of advocacy services to adults, and
- work with local authorities and service providers to support the development and commissioning of advocacy services for adults

More information can also be found at www.agecymru.org.uk/advocacy

Continued...

Er mwyn tanysgrifio i'r newyddlen, a fyddech cystal â chysylltu â Ffion Jones:

ffion.jones@agecymru.org.uk neu 01352 706228

[Age Cymru | Rhaglen Eiriol Edau Euraidd]

# 1. Dadansoddiad

**Gweler atodiad 1 am setiau data llawn.**

## Gwasanaethau eirioli a ariennir yn benodol i bobl hŷn (50+) yng Nghymru

Awgryma ein harolwg y caiff 19 o wasanaethau eu hariannu'n benodol i bobl hŷn o'i gymharu â 23 yn 2013. Collir pedwar gwasanaeth fel hyn ac mae'n ostyngiad o 17%.

Mae nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hynny wedi mynd i lawr o 15 i 13.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau (naw) yn darparu un gwasanaeth yn unig, fodd bynnag, mae dau sefydliad yn rhoi tri gwasanaeth yr un.

Mae nifer yr eiriolwyr cyflogedig a gwirfoddol wedi syrthio o 133 yn 2013 i 73 yn 2016, sy'n ostyngiad o 45%.

Mae mathau'r gwasanaethau y mae'r sefydliadau wedi'u hariannu i'w darparu'n aros yn eithaf cyson er y bu gostyngiad yn y gwasanaethau sydd ar gyfer diogelu (pobl hŷn rhag cael eu cam-drin) a dementia. Gallai hyn fod oherwydd colli'r prosiectau Diogelu AdvantAGE. Dywedodd sawl ymatebwr eu bod yn darparu eiriolaeth gyffredin sy'n ymddangos i fod yn faes twf.

Yn ddaearyddol, bu gostyngiad yn nifer y siroedd â gwasanaethau eirioli yn benodol i bobl hŷn. Yn 2013, roedd gan 21 o siroedd wasanaethau ac eto yn 2016 mae'r nifer honno wedi syrthio i 17. Dyma'r bylchau; Pen-y-bont, Merthyr, Sir Fynwy, Glyn Nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf. Yn yr adroddiad diwethaf gwasanaethwyd y siroedd hyn gan y prosiectau AdvantAGE sydd bellach wedi dod i ben ac awgryma tystiolaeth nad oes gwasanaethau newydd wedi dod yn eu lle.

Dywedodd pum ymatebwr bod ganddynt restr aros a dywedodd naw bod ganddynt system flaenoriaethu. Pasiodd naw ymatebwr y cwestiwn hwn heb ei ateb. Dywedodd un ymatebwr bod ganddo restr aros bedair wythnos ond ei fod yn ymateb i angen. Dywedodd un arall ei fod yn ymateb cyn pen 72 awr i'r cyfeiriad neu'r alwad tra bod un arall yn dweud y cynhelir asesiad risg ar bob un er mwyn penderfynu ar ei flaenoriaeth.

## Gwasanaethau eirioli i grŵp cleient ehangach ond cefnogir pobl hŷn fel rhan o'r gwasanaeth

Er 2013 ymddengys y bu cynnydd sylweddol mewn gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth i grŵp cleient ehangach lle cefnogir pobl hŷn hefyd. Nodwyd 26 o wasanaethau yn 2013 ac mae hyn wedi cynyddu i 44 yn 2016, cynnydd o 69%.

Nid yw nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi tyfu'n sylweddol fodd bynnag gan ei bod wedi codi o 12 i 15 yn unig. Rhaid bod hyn yn dangos bod rhai sefydliadau eu hunain wedi tyfu'n sylweddol mewn maint ac wedi'u dyfarnu â sawl contract ar gyfer eiriolaeth ar draws ardaloedd daearyddol mawr.

Yn yr un modd ag y mae nifer y gwasanaethau wedi codi, mae nifer yr eiriolwyr cyflogedig a gwirfoddol wedi hefyd. Mae'r ffigyrau hyn wedi codi o 86 i 166. Mae hyn yn gynnydd o 93%.

2354 oedd nifer y bobl hŷn yr oedd y gwasanaethau hyn yn eu cefnogi o gymharu â 1590 yn 2013.

Ymhlith mathau'r gwasanaethau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn roedd Gwasanaeth Eirioli Annibynol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA), Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Iechyd Meddwl (IMHA), iechyd meddwl anstatudol, cwynion, anawsterau dysgu, cam-drin domestig, dementia a gofalwyr.

Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu ar hyd y cyfan o Gymru, sy'n welliant er 2013 pan awgrymodd yr arolwg nad oedd gan ddwy sir ddarpariaeth o gwbl.

## Iaith

Bu cynnydd yn nifer y sefydliadau ag eiriolwyr Cymraeg eu hiaith o 12 yn 2013 i 14 yn 2016. Mae gan 74% o'n hymatebwyr eiriolwyr Cymraeg eu hiaith. Yn yr un modd, mae nifer y gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith wedi cynyddu o 26 i 34; cynnydd o 31%.

Yn 2013 ymhlith y ceisiadau am gefnogaeth mewn ieithoedd eraill roedd; Pwyleg, Almaeneg, Mandarin a Slofaceg. Yn 2016 mae cefnogaeth ychwanegol wedi bod yn ofynnol mewn Tsieinëeg, Rwseg, Groeg, Rwmaneg a Bengaleg. Dywedodd un ymatebwr ei fod yn methu cynnig cefnogaeth mewn ieithoedd eraill oherwydd cyfyngiadau ariannol.

## Ansawdd a Safonau

Dywedodd 100% o ymatebwyr eu bod yn gweithio'n unol â set o safonau a chôd ymarfer. Dywedodd un ar ddeg o'r 22 sefydliad a ymatebodd eu bod yn gweithio'n unol â Siarter a Chôd ymarfer *Action for Advocacy*. Mae eraill yn gweithio'n unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a Safonau Ansawdd Age UK.

Mae gan 41% o ymatebwyr y Marc Perfformiad Ansawdd; mae 32% arall yn gweithio tuag ato. Nid oes gan fymryn dros chwarter o'r ymatebwyr y Marc Perfformiad hwn ac nid ydynt yn gweithio tuag ato. Ymhlith rhai o'r rhesymau am hyn mae:

- 'Ni allwn fforddio gwneud hyn gan mai elusen fechan iawn ydym ac nid oes gennym yr arian.'
- 'Mae'n rhywbeth y buasem yn edrych arno pe baem yn cael arian yn y dyfodol'.

Bu cynnydd o 44% yn nifer y sefydliadau y mae gan eu staff bellach Gymhwyster Eiriolaeth Cenedlaethol City and Guilds. Mae wedi cynyddu o naw i 13. Mae cyfanswm nifer y staff yr awgryma'r arolwg hwn sydd â chymhwyster hefyd wedi codi 48% o 37 i 55. A dweud y gwir gallai'r nifer hon fod yn llawer uwch gan fod deg o ymatebwyr wedi pasio cwestiwn 31 heb ei ateb.

Dyma oedd y gofynion hyfforddi a nodwyd

- POVA /Diogelu
- Galluedd Meddyliol ar gyfer eiriolwyr
- Trosolwg o fudd-daliadau wrth i staff a budd-daliadau newid
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Cymhwyster Eiriolaeth Cenedlaethol
- Trefniadau diogelu rhag colli rhyddid
- Cymwysterau eiriolaeth
- Mapio Gofal Dementia
- Dementia, epilepsi, diabetes, ymwybyddiaeth o fyddardod
- Ymwybyddiaeth ofalgar/ymdopi â straen yn y gweithle

## Ariannu a Chynaliadwyedd

Wrth gymharu'r canlyniadau ynghylch cyfnod ariannu'r gwasanaethau, bu cynnydd yn nifer y gwasanaethau a ariennir am flwyddyn yn unig. Yn 2013, nododd ymatebwyr bod 44% o wasanaethau wedi'u hariannu am flwyddyn, 26% wedi'u hariannu am ddwy flynedd, a 30% am dair blynedd. Y tro hwn, ariennir mwy o wasanaethau (66%) am flwyddyn, 8% am ddwy flynedd, 19% am dair blynedd a 7% am bum mlynedd neu fwy.

Mae hyn yn datgelu symudiad yn y modd yr ariennir gwasanaethau gan ddangos llai o gontractau tymor hwy a mwy o gontractau tymor byr.

Ceir hefyd bryderon gwirioneddol nad oes arian cynaliadwy. Dywed 18% o wasanaethau bod gostyngiad yn eu harian neu fod disgwyl i'r arian ddod i ben. Nid oedd 40% yn gwybod beth oedd am ddigwydd i'w harian. Mae'r rhain yn bryderon gwirioneddol i sefydliadau sy'n ceisio cynnal staff hyfforddedig, profiadol a chynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Mae'n ofynnol cael dull gweithredu llawer cadarnach yn y tymor hwy o ran cynaliadwyedd y gwasanaethau hyn.

Ymhlith rhai o'r pryderon a godwyd mae:

- *'Methu gwarantu y bydd arian llywodraeth leol yn parhau. Caiff ei gadarnhau o un flwyddyn i'r nesaf. Bydd arian y flwyddyn gyntaf yn dod i ben.'*
- *'Eleni rydym yn gweithredu ar ostyngiad ariannol o 10%'*
- *'Gyda chyflwyno'r ddeddf newydd, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, rydym yn parhau'n ansicr ynghylch pa gynlluniau sydd gan ein Hawdurdod Lleol o ran cynllunio ac ariannu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.'*
- *'Yn disgwyl am ymrwymiad gan yr Awdurdod Lleol'*
- *'Ein hariannu gan Grant Cydraddoldeb a Cynhwysiad 2014 – 2017. Ni wyddys a fydd hwn ar gael ar ôl 2017'*

O'r ymatebwyr, ariennir 13 o wasanaethau gan yr awdurdod lleol, naw gan ymddiriedolaethau elusennol, chwe gan ymddiriedolaethau iechyd, pedwar gan Lywodraeth Cymru, un ar y cyd gan iechyd ac awdurdod lleol a saith gan arianwyr grant. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y sefydliadau sy'n ariannu gwasanaethau trwy godi arian a rhoddion o un gwasanaeth i chwech.

Pan ofynnwyd i ymatebwyr beth sydd yn rhaid digwydd i sicrhau cynaliadwyedd, nid oedd yn syndod bod ymatebion yn canolbwyntio ar sicrhau arian diogel gyda chynllun clir ar gyfer y tymor hir. Ymhlith ymatebion eraill roedd:

- *'Mae angen i eiriolaeth annibynnol gael ei hariannu gan y llywodraeth ym mhob Sir.'*
- *'Mwy o arweiniad statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau eirioli cyffredinol.'*
- *'Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gweithio'n agosach gydag eiriolwyr annibynnol y trydydd sector ac yn darparu arian cynaliadwy.'*
- *'Safonau ansawdd yn cael eu cynnal a Marciau Ansawdd yn cael eu cymeradwyo.'*
- *'Mae'r llywodraeth yn cydnabod ei bwysigrwydd ond angen rhoi rhyw gymaint o ddiogelwch gydag arian tymor hir ar gyfer anghenion tymor hir. Fe'i dyfynnir yn y Ddeddf Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant. Felly, mae angen i'r llywodraeth ganolog a llywodraeth leol ddechrau rhoi cefnogaeth ariannol i wasanaeth y mae dirfawr angen amdano ond sydd yn cael ei danariannu.'*
- *'Dealltwriaeth go iawn ac arian cadarn am dair – bum mlynedd wedi'i wreiddio yn y gymuned.'*
- *'Mae angen i ni ystyried yn ddifrifol ganlyniadau gan bartneriaid sy'n cyflawni'r gwasanaeth, yn erbyn gwerth am arian, anghenion pobl hŷn, dylanwadau allanol cau gwelyau ysbyty / cartrefi preswyl a sut dylai lleisiau pobl hŷn gael eu clywed. Mae angen i ni amlygu'r ffaith fod pobl hŷn yn cael eu cam-drin ar draws Cymru. Mae angen i ni hefyd amddiffyn ein cenhedlaeth hŷn a chynnig cefnogaeth yn erbyn achosion o dwyll. Mae angen i ni hefyd roi i bobl hŷn yr*

*offer iddynt allu fynd ar lein yn saff a diogel er mwyn cael at fudd-daliadau, cyfleoedd gwaith ar lein, ar adeg pryd mae cyfleusterau cyhoeddus, megis llyfrgelloedd, yn cau.'*

- *'Sicrhau arian yn amhenodol yn unol â gofynion statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.'*
- *'Contractau o dair blynedd o leiaf ac, ar ryw bwynt, gydnabod y gallai cyflogau a chadw staff ddigon posib fod yn broblem oni cheir cynnydd mewn chwyddiant mewn oes contract pum mlynedd.'*

Yn gyffredinol, pan ofynnwyd am lefel gwybodaeth ymatebwyr am y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, roedd ymatebion yn gadarnhaol iawn gydag 86% yn dweud gwybodaeth ardderchog neu dda. Er bod 14% wedi dweud bod eu gwybodaeth yn gyfyngedig.

Roedd 55% o ymatebwyr wedi dechrau trafodaethau gyda'u comisiynwyr lleol am ariannu Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol.

Nid oes yr un darparwr yn codi ar ei gleientiaid am ei wasanaethau a barn y mwyafrif llethol oedd na ddylid codi am wasanaethau eirioli ar unrhyw gyfrif.  Ymhlith rhai o'r rhesymau mae:

- *'Pe byddid yn codi amdano, byddai'n perygl pwrpas eiriolaeth annibynnol a mynediad agored.'*
- *'Ni allai'r rhan fwyaf ei fforddio; felly rhaid iddo fod yn rhad ac am ddim.'*
- *'Mae'n wasanaeth sylfaenol; felly ni ddylid codi amdano'*
- *'Ni ddylai hyn ddigwydd gan fod llawer o gleientiaid ar fudd-daliadau a byddent yn methu fforddio hyn.'*
- *'Pe byddem, byddai'n mynd yn groes i egwyddorion eiriolaeth annibynnol.'*
- *'Yn gwbl annerbyniol ac yn erbyn ethos sylfaenol eiriolaeth.'*
- *'Byddai'n heriol iawn codi ar y rhai mwyaf bregus ac nid yw'n rhywbeth yr hoffem ei wneud.'*

## Diogelu

Wrth adolygu'r ymatebion i gwestiynau ar ddiogelu, mae'n hynod galonogol gweld bod diogelu'n amlwg yn flaenoriaeth uchel i wasanaethau eirioli ac y caiff ei ystyried yn ddifrifol iawn, yn ymarferol ac o ran y polisïau, y gweithdrefnau a'r hyfforddiant sydd yn eu lle.

Roedd 100% o ymatebwyr wedi cefnogi rhywun oedd wedi'u cam-drin yn y 12 mis diwethaf.  Yn 2013, 84% oedd yr ymateb hwn.

Roedd 100% o ymatebwyr hefyd yn hyderus yn cyfeirio at yr awdurdod lleol o'i gymharu â 93% yn 2013.

Mae gwasanaethau'n ymdrin â phob math o gamdriniaeth er mai camdriniaeth gorfforol yw'r categori mwyaf cyffredin o fymryn yn unig.  Cartref y person ei hun yw'r prif leoliad byth.

Mae gan 100% o ymatebwyr bolisi a gweithdrefn ddiogelu tra bod gan 95% reolwr dynodedig.  Un ymatebwr yn unig a ddywedodd nad oedd ganddo reolwr dynodedig. Mae hyn i fyny o 63% yn 2013.

Dywed 100% o wasanaethau eu bod wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn oedolion. Rhoddwyd 68% o'r hyfforddiant ar amddiffyn oedolion gan yr awdurdod lleol tra bod 22% wedi'i wneud yn fewnol.  Mae 75% o wirfoddolwyr wedi cael yr hyfforddiant hwn hefyd.

Nid yw 62% o ymatebwyr yn aelodau o'r pwyllgor lleol amddiffyn oedolion. Gallai hyn fod oherwydd y newidiadau i'r strwythurau ar gyfer diogelu ar draws ffiniau rhanbarthol gyda gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

## Casgliad ac Argymhellion

Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 wedi rhoi cipolwg cyfredol ar ddarparu eiriolaeth yng Nghymru i oedolion gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn.  Awgryma fod nifer gyffredinol yr eiriolwyr wedi parhau i godi ond fe ddengys rheswm dros bryderu mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys gostyngiad mewn darparwyr arbenigol a bylchau mewn ardaloedd y mae gwasanaethau ar gael ynddynt.

Mae'r cwymp yn nifer y darparwyr eiriolaeth ac eiriolwyr arbenigol i bobl hŷn yn bryder penodol i Age Cymru.

Mae dulliau gweithredu o ran comisiynu eiriolaeth ar draws Cymru'n amrywiol ar hyn o bryd ac ar adegau gwahanol o'u datblygiad. Mae'n ymddangos bod contractau'n cael eu dyfarnu i sefydliadau a all gyflawni I'r holl oedolion yn hytrach na darparwyr arbenigol unigol a gallai hyn egluro'r data yr ydym yn ei gyflwyno.

Er bod nifer y dinasyddion sydd wedi cael cefnogaeth eiriolaeth wedi parhau i godi, mae nifer y darparwyr wedi syrthio i lefelau is nag yn 2011 (fel yr adroddwyd arno yn 'Pwysigrwydd Eiriolaeth 3'). Unwaith eto, gallai hyn fod yn arwydd o symudiad oddi wrth gomisiynu darparwyr eiriolaeth arbenigol i ddarparwyr sy'n cyflawni ar gyfer pob oedran ar draws ardal ddaearyddol fwy. Gallai dirwyn i ben ariannu prosiectau a ariennir gan brosiect Advantage y Loteri Fawr hefyd gyfrif am nifer isel y darparwyr yn yr adroddiad hwn.

Yn wyneb y dyletswyddau newydd a roddir ar Awdurdodau Lleol. Rhagwelir y bydd galw am wasanaethau eirioli'n tyfu ac, felly, bydd cael gwasanaethau sydd ar gael a sicrhau eu bod yn gynaliadwy'n flaenoriaeth i bawb dan sylw.  Mae cymysgedd o adnoddau ariannu, arianwyr statudol a grant yn debyg i'r hyn yr adroddwyd arno yn 2013. Bydd adroddiadau'r dyfodol yn ystyried a yw'r dyletswyddau newydd yn cael effaith ar nifer y gwasanaethau a gomisiynir a'r rhai a ariennir trwy grant.

Yn ôl paragraff 39 Rhan 10 Côd Ymarfer (Eiriolaeth), " Bydd eiriolaeth yn cyfrannu at y gwaith o atal, oedi neu leihau anghenion gofal a chymorth pobl, a rhaid iddi fod yn

rhan o gyd-asesiad yr awdurdod lleol a’r bwrdd iechyd lleol o anghenion eu poblogaeth o dan adran 14 o ystod a lefel gwasanaethau ataliol o dan adran 15 o’r Ddeddf."  Ychwanegwyd y ddyletswydd i drefnu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn eithaf hwyr yn nhaith y ddeddfwriaeth, felly mae yno elfen o orfod dal i fyny cyn bod asesiad o’r angen am y gwasanaethau hynny wedi’i integreiddio’n llwyr i asesiadau poblogaeth a gweddill y cylch comisiynu. Mae tîm y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn gweithio gyda Rheolwyr Prosiect Rhanbarthol ar gyfer Asesiad Poblogaeth er mwyn sicrhau bod marcwyr ar gyfer y dyfodol ar eiriolaeth yn cael eu cynnwys mewn Adroddiadau Asesu Poblogaeth.  Unwaith y mae eiriolaeth wedi’i chynnwys yn llwyr mewn Asesiad Poblogaeth, bydd data ar angen nad oedd ar gael yn flaenorol ar gael gyda data ar ddarparu gwasanaethau. Dylai comisiynwyr hefyd fonitro faint sy’n defnyddio’r gwasanaeth eirioli a’r canlyniadau gael eu cyflawni trwy gontractau eiriolaeth. Byddai’r holl ddata hyn yn rhoi dilysrwydd i rai o’r pethau na allwn, ar hyn o bryd, ond eu tybio. Fodd bynnag, rhaid disgwyl i weld i ba raddau y caiff gwaith comisiynu data ei roi yn y maes cyhoeddus.

Erys diogelu’n rhan sylfaenol o’r gwasanaethau eirioli a ddarperir gan ymatebwyr i’r arolwg hwn. Mae diogelu’n faes allweddol lle mae gan ddinasyddion hawl i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (mewn amgylchiadau penodol) a dywedodd yr holl ymatebwyr i’r arolwg eu bod wedi cefnogi cleientiaid oedd wedi’u cam-drin yn y 12 mis diwethaf. Mae’r ymatebwyr wedi dweud y bu cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin corfforol y maent wedi cefnogi cleientiaid i ymdopi â nhw, gyda chamdriniaeth ariannol a chamdriniaeth emosiynol/seicolegol yr ail gamdriniaeth fwyaf cyffredin. Mae Age Cymru’n cefnogi hawl unigolion i fyw mewn amgylchedd diogel, heb gael eu niweidio a’u cam-drin. Bydd yr hawl i’r rhai sydd wedi’u cam-drin gael eiriolaeth yn eu galluogi i fynegi eu barn, eu dymuniadau a’u teimladau a bod wrth galon y broses ddiogelu, gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn ac yn cael cefnogaeth i beidio â chael eu niweidio yn y dyfodol.

Mae Age Cymru wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad y sector eiriolaeth annibynnol yng Nghymru ac yn edrych arno fel offeryn hanfodol i ddiogelu llesiant yr holl ddinasyddion, nid llesiant pobl hŷn yn unig. Mae Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru wedi’i hariannu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith gweithredu Rhan 10 (eiriolaeth) "Y Ddeddf" mewn modd strategol ac unedig, gan geisio datblygu gwasanaethau cyson a chynaliadwy ar draws Cymru gyfan.

## Atodiad 1

# Pwysigrwydd Eiriolaeth 5: Canlyniadau Data

C1 Manylion Cyswllt

- Rhoes 22 o ymatebwyr eu manylion cyswllt i ni gydag ugain yn cytuno i gyswllt pellach.

Mae'r set gyntaf hon o gwestiynau wedi'u hanelu'n benodol at wasanaethau i bobl hŷn

C2. Faint o'ch gwasanaethau sydd wedi'u hariannu i roi eiriolaeth sy'n benodol i bobl hŷn?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Dim | 35.0% | 7 |
| 1 | 45.0% | 9 |
| 2 | 10.0% | 2 |
| 3 | 10.0% | 2 |
| 4 | 0.0% | 0 |
| 5 | 0.0% | 0 |
| 6 | 0.0% | 0 |
| Dim mwy na 6 | 0.0% | 0 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 20 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 2 |

C3. Faint o eiriolwyr cyflogedig llawn amser sy'n gweithio i'r gwasanaethau hyn? 20
C4. Faint o eiriolwyr cyflogedig rhan-amser sy'n gweithio i'r gwasanaethau hyn? 23
C5. Faint o eiriolwyr gwirfoddol sy'n ymwneud â'r gwasanaethau hyn? 30
C6. Oddeutu faint o bobl wnaeth y gwasanaethau hyn eu cefnogi yn y 12 mis diwethaf? 4054

C7. Ar gyfer beth mae eich gwasanaethau wedi'u hariannu'n benodol i gefnogi pobl?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Materion cyffredinol | 76.9% | 10 |
| Cam-drin Pobl Hŷn | 53.8% | 7 |
| Dementia | 53.8% | 7 |
| Tai | 61.5% | 8 |
| Camdriniaeth Ddomestig | 53.8% | 7 |
| Materion Ariannol | 53.8% | 7 |
| Gofalwyr | 46.2% | 6 |
| Pobl ddu, leiafrifol, ethnig | 15.4% | 2 |
| Gofal Preswyl | 76.9% | 10 |
| Arall | 38.5% | 5 |
| Sylwadau | | 9 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 13 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 9 |

Gwybodaeth ychwanegol am y cwestiwn hwn:

- gwasanaeth eirioli cyffredinol ydym sy’n ymateb i holl faterion cyfeirio
- caiff un prosiect ei ariannu’n benodol i gefnogi pobl hŷn sydd â chancr
- cefnogwn bobl ag anabledd dysgu ar gyfer yr holl faterion y gallent fod angen cymorth arnynt yn eu cylch
- cawn ein hariannu’n benodol i roi eiriolaeth gyffredinol ond, trwy reidrwydd, mae hyn yn cynnwys pob maes arall a nodir uchod
- eiriolaeth gyfarwyddol ydym ond yn cyfeirio at IMCA ac ati
- mae’r rhan fwyaf o’r gwaith yn ymwneud â dementia a phobl yn symud o ysbytai i gartrefi gofal, symud oedolion bregus o gartrefi gofal a siarad â’r gwasanaethau cymdeithasol
- mae gennym wasanaeth eirioli 50+ i bobl â phroblemau iechyd meddwl a hefyd wasanaeth eirioli gofalwyr. Rydym yn eu cefnogi i ymdrin â chymaint o faterion â bod modd, ond nid ydym yn eu cynorthwyo â materion ynghylch budd-daliadau na rhoi cyngor cyfreithiol
- cynigiwn gefnogaeth i bobl hŷn sy’n ddioddefwyr o unrhyw fath o drosedd p’run y rhoddwyd gwybod i’r awdurdodau statudol amdani ai peidio.

C8. Lle darperir eich gwasanaethau?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Unrhyw le | 92.3% | 12 |
| Cartrefi’r bobl eu hunain | 38.5% | 5 |
| Ysbytai | 30.8% | 4 |
| Cartrefi Gofal | 38.5% | 5 |
| Tai gwarchod | 30.8% | 4 |
| Canolfannau Dydd | 15.4% | 2 |
| Arall | 7.7% | 1 |
| Arall (nodwch) | | 2 |
| *Cwestiwn a atebwyd* | | 13 |
| *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | | 9 |

C9. Ym mha siroedd y rhoddir y gwasanaethau hyn (i bobl hŷn)?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Abertawe | 7.7% | 1 |
| Blaenau Gwent | 7.7% | 1 |
| Bro Morgannwg | 7.7% | 1 |
| Caerdydd | 7.7% | 1 |
| Caerffili | 15.4% | 2 |
| Casnewydd | 7.7% | 1 |
| Ceredigion | 7.7% | 1 |
| Conwy | 7.7% | 1 |
| Cymru gyfan | 7.7% | 1 |
| Gwynedd | 7.7% | 1 |
| Glyn Nedd Port Talbot | 0.0% | 0 |
| Merthyr Tudful | 0.0% | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0.0% | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Powys | 23.1% | 3 |
| Rhondda Cynon Taf | 0.0% | 0 |
| Sir Benfro | 7.7% | 1 |
| Sir Ddinbych | 7.7% | 1 |
| Sir Fynwy | 0.0% | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 15.4% | 2 |
| Sir y Fflint | 15.4% | 2 |
| Torfaen | 7.7% | 1 |
| Wrecsam | 23.1% | 3 |
| Ynys Môn | 7.7% | 1 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 13 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 9 |

C10. Rhowch wybod i ni am y galw sydd am eich gwasanaethau.

| Opsiynau Ateb | OES | NAC OES | Cyfrif yr Ymateb |
|---|---|---|---|
| Rhestr aros? | 5 | 7 | 12 |
| System flaenoriaethu? | 9 | 3 | 12 |
| | | *Cwestiwn a atebwyd* | 13 |
| | | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 9 |

Sylwadau eraill:

- oddeutu pedair wythnos o aros yn unol â'r angen
- o fewn 72 awr i gyfeirio neu alw
- cynhelir asesiad risg ar bob achos i benderfynu ar ei flaenoriaeth

C11. Rhowch wybod i ni os oes rhywbeth arall yr hoffech ei rannu am yr elfennau hyn o'ch gwasanaeth

Rydym wedi nodi'r angen am wasanaeth cyffredinol. Mae gan y gwasanaeth hefyd achosion cymhleth iawn y mae angen cefnogaeth arbenigol ar eu cyfer, gofynion hyfforddi ychwanegol a gall ddwyn i mewn bartneriaid eraill megis banciau, yr Heddlu a Safonau Masnach.

Roedd y set nesaf o gwestiynau i gwasanaethau nad ydynt wedi'u hariannu'n benodol i bobl hŷn ond sydd â phobl hŷn yn rhan o'u grŵp cleient

C12. Faint o wasanaethau eirioli fyddwch chi'n eu darparu sy'n cefnogi pobl hŷn fel rhan o grŵp cleient ehangach?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Dim | 25.0% | 5 |
| 1 | 15.0% | 3 |
| 2 | 20.0% | 4 |
| 3 | 15.0% | 3 |
| 4 | 15.0% | 3 |
| 5 | 0.0% | 0 |
| 6 | 10.0% | 2 |
| Mwy na 6 | 0.0% | 0 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 20 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 2 |

C13. Faint o eiriolwyr cyflogedig llawn amser sy'n gweithio i'r gwasanaethau hyn?87
C14. Faint o eiriolwyr cyflogedig rhan-amser sy'n gweithio i'r gwasanaethau hyn? 43
C15. Faint o eiriolwyr gwirfoddol sy'n ymwneud â'r gwasanaethau hyn? 36
C16. Oddeutu faint o bobl wnaeth y gwasanaethau hyn eu cefnogi yn y 12 mis diwethaf? 2354

C17. Pa fath o eiriolaeth y mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hariannu i'w cyflawni?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| IMCA | 33.3% | 5 |
| IMHA | 26.7% | 4 |
| Iechyd Meddwl Anstatudol | 53.3% | 8 |
| Cwynion | 13.3% | 2 |
| Cyffredinol | 33.3% | 5 |
| Dementia | 20.0% | 3 |
| Tai | 20.0% | 3 |
| Camdriniaeth Ddomestig | 13.3% | 2 |
| Gofalwyr | 20.0% | 3 |
| Pobl ddu, leiafrifol, ethnig | 6.7% | 1 |
| Gofal Preswyl | 20.0% | 3 |
| Anableddau dysgu | 33.3% | 5 |
| Arall | 13.3% | 2 |
| Arall (nodwch) | | 3 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 15 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 7 |

Arall:

- dinesydd
- iechyd meddwl cymunedol
- eiriolaeth gymunedol

C18.  Lle darperir eich gwasanaethau?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Unrhyw le | 80.0% | 12 |
| Cartrefi'r bobl eu hunain | 20.0% | 3 |
| Ysbytai | 40.0% | 6 |
| Cartrefi Gofal | 20.0% | 3 |
| Tai gwarchod | 20.0% | 3 |
| Canolfannau Dydd | 13.3% | 2 |
| Arall | 20.0% | 3 |
| Arall (nodwch) | | 3 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 15 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 7 |

C19.  Ym mha siroedd y rhoddir y gwasanaethau hyn?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Abertawe | 20.0% | 3 |
| Blaenau Gwent | 13.3% | 2 |
| Bro Morgannwg | 13.3% | 2 |
| Caerdydd | 13.3% | 2 |
| Caerffili | 13.3% | 2 |
| Casnewydd | 20.0% | 3 |
| Ceredigion | 26.7% | 4 |
| Conwy | 6.7% | 1 |
| Cymru gyfan | 6.7% | 1 |
| Glyn Nedd Port Talbot | 20.0% | 3 |
| Gwynedd | 6.7% | 1 |
| Merthyr Tudful | 6.7% | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13.3% | 2 |
| Powys | 20.0% | 3 |
| Rhondda Cynon Taf | 13.3% | 2 |
| Sir Benfro | 20.0% | 3 |
| Sir Ddinbych | 13.3% | 2 |
| Sir Fynwy | 13.3% | 2 |
| Sir Gaerfyrddin | 20.0% | 3 |
| Sir y Fflint | 20.0% | 3 |
| Torfaen | 13.3% | 2 |
| Wrecsam | 13.3% | 2 |
| Ynys Môn | 6.7% | 1 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 15 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 7 |

C20.  Rhowch wybod i ni os oes rhywbeth arall yr hoffech ei rannu am yr elfennau hyn o’ch gwasanaeth

Caerdydd a Bro Morgannwg – anabledd dysgu a chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth. Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen - cyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth

| Mae’r setiau nesaf o gwestiynau’n gyffredin i’r holl wasanaethau |
|---|

C21. Oes gennych eiriolwyr cyflogedig Cymraeg eu hiaith?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Oes | 73.7% | 14 |
| Nac oes | 26.3% | 5 |
| Dim yn gwybod | 0.0% | 0 |
| Sylw | | 2 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | **19** |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | **3** |

C22. Os ateboch chi ‘oes’ i’r cwestiwn blaenorol, faint o eiriolwyr cyflogedig Cymraeg eu hiaith ydych chi’n eu cyflogi?
34

C23. Oes gennych eiriolwyr gwirfoddol Cymraeg eu hiaith?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Oes | 11.1% | 2 |
| Nac oes | 83.3% | 15 |
| Dim yn gwybod | 5.6% | 1 |
| Sylw | | 0 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | **18** |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | **4** |

C24. Os ateboch chi ‘oes’ i’r cwestiwn blaenorol, faint o eiriolwyr gwirfoddol Cymraeg eu hiaith sydd gan eich gwasanaeth(au)?
3

C25. Beth yn fras yw canran eich cleientiaid sydd wedi cael cefnogaeth eirioli yn Gymraeg?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Dim | 31.6% | 6 |
| Dim yn gwybod | 0.0% | 0 |
| 1% - 10% | 52.6% | 10 |
| 11% - 20% | 5.3% | 1 |
| 21% - 30% | 0.0% | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| 31% - 40% | 0.0% | 0 |
| 41% - 50% | 0.0% | 0 |
| 51% - 60% | 5.3% | 1 |
| 61% - 70% | 5.3% | 1 |
| 71% - 80% | 0.0% | 0 |
| 81% - 90% | 0.0% | 0 |
| 91% - 100% | 0.0% | 0 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 19 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 3 |

C26. Oes gofyn i'ch cleientau gael cefnogaeth eirioli mewn unrhyw iaith arall?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Oes | 42.1% | 8 |
| Nac oes | 57.9% | 11 |
| Sylwadau | | 9 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 19 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 3 |

Ymhlith yr ieithoedd eraill a'r sylwadau roedd

- Pwyleg, Tsieinëeg
- Rwmaneg
- Mandarin, Rwseg, Pwyleg
- Bengaleg, Tsieinëeg, Pwyleg
- Pwyleg
- Groeg, Pwyleg
- Almaeneg, Rwseg a Phwyleg - defnyddiwn gyfieithwyr
- Pwyleg yn bennaf
- Ni allwn gynnig y gwasanaeth hwn oherwydd cyfyngiadau ariannol

C27. Rhowch wybod i ni os oes rhywbeth arall yr hoffech ei rannu am yr elfennau hyn o'ch gwasanaeth

- Rhennir gwybodaeth yn ddwyieithog, megis taflenni hysbysebu, taflenni cyffredinol a'r wefan.

C28. Fyddwch chi'n gweithio'n unol â set o safonau a chôd ymarfer?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Byddwn | 100.0% | 22 |
| Na fyddwn | 0.0% | 0 |
| Sylw | | 15 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

Ymhlith sylwadau mae

- Côd Ymarfer Eiriolaeth
- Siarter Eiriolaeth 2014, Côd Ymarfer Eiriolaeth 2014
- Action for Advocacy
- Côd Ymarfer yn seiliedig ar y Siarter Eiriolaeth
- Siarter eiriolaeth a'r côd ymarfer. Deddf Galluedd Meddyliol, Deddf Hawliau Dynol, y Ddeddf Cydraddoldeb
- Cod ymarfer eiriolaeth
- Côd ymarfer Action for Advocacy. Mae staff yn ymgymryd â hyfforddiant eiriolaeth Kate Mercer
- Action for Advocacy
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac erthyglau
- Safon Ansawdd Sefydliadol (Age UK)
- Eiriolaeth De Cymru ac wrthi'n gweithio tuag at Farc Perfformiad Ansawdd Ychwanegol
- Côd Ymarfer A4A Ndti Marc Perfformiad Ansawdd
- Siarter Eiriolaeth,
- Action for Advocacy

C29. Oes gan eich sefydliad y Marc Perfformiad Ansawdd ar gyfer eiriolaeth ynteu ydych chi'n gweithio tuag ato?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Oes, mae o gennym | 36.4% | 8 |
| Mae o gennym ond yn disgwyl iddo gael ei adolygu a'i ailgyflwyno | 4.5% | 1 |
| Yn gweithio tuag ato | 31.8% | 7 |
| Nid yw o gennym a dim yn gweithio tuag ato | 27.3% | 6 |
| Dim yn gwybod | 0.0% | 0 |
| Sylwadau | | 5 |
| | ***Cwestiwn a atebwyd*** | **22** |
| | ***Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb*** | **0** |

Sylwadau

- Ni allwn fforddio gwneud hyn gan mai elusen fechan iawn ydym ac nid oes gennym yr arian.
- Buddsoddwyr mewn gwirfoddolwyr PCASSO
- Rydym yn barod i gael y Marc Perfformiad Ansawdd yng Nghymru ond mae angen disgwyl i Loegr ddal i fyny er mwyn mynd amdano gan ei fod yn canolbwyntio ar y sefydliad cyfan.
- Erbyn Ebrill 2017
- Mae'n rhywbeth y buasem yn edrych arno pe baem yn cael arian yn y dyfodol

C30. Oes gan eich eiriolwyr Cymhwyster Eiriolaeth Cenedlaethol City and Guilds?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Oes | 59.1% | 13 |
| Nac oes | 27.3% | 6 |
| Yn gweithio tuag ato | 13.6% | 3 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

C31. Os ateboch 'oes' i'r cwestiwn blaenorol, faint sydd â'r Cymhwyster?
Mae gan o leiaf 55 y cymhwyster. Pasiodd 10 ymateb y cwestiwn heb ei ateb.

C32. Oes gennych unrhyw ofynion hyfforddi?

- POVA /Diogelu
- Galluedd Meddyliol ar gyfer eiriolwyr
- Trosolwg o fudd-daliadau wrth i staff a budd-daliadau newid
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Cymhwyster Eiriolaeth Cenedlaethol
- Trefniadau diogelu rhag colli rhyddid
- Cymwysterau eiriolaeth
- Mapio Gofal Dementia
- Dementia, epilepsi, diabetes, ymwybyddiaeth o fyddardod
- Ymwybyddiaeth ofalgar/ymdopi â straen yn y gweithle

C33. Rhowch wybod i ni os oes rhywbeth arall yr hoffech ei rannu am yr elfennau hyn o'ch gwasanaeth.

- Mae eiriolwyr yn mynd ar yr holl gyrsiau hyfforddi er mwyn cwrdd ag anghenion / cyflwr eu cleintiaid
- Mae'r cymwysterau llawn gennym mewn rheoli a chwnsela
- Mae gofyn i'r holl staff sefyll y Cymhwyster Eiriolaeth Cenedlaethol os nad ydyw ganddynt pan fyddant yn dechrau gyda ni.

C34. Am faint mae eich gwasanaeth(au) wedi'i/u (h)ariannu?

| Gwasanaeth 1 | Blwyddyn | Dwy flynedd | Tair blynedd | Pedair blynedd | Pum mlynedd | Dros bum mlynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyd yr ariannu | 61.90% 13 | 0.00% 0 | 23.81% 5 | 0.00% 0 | 9.52% 2 | 4.76% 1 | 21 |

| Gwasanaeth 2 | Blwyddyn | Dwy flynedd | Tair blynedd | Pedair blynedd | Pum mlynedd | Dros bum mlynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyd yr ariannu | 61.54% 8 | 7.69% 1 | 15.38% 2 | 7.69% 1 | 7.69% 1 | 0.00% 0 | 13 |

| Gwasanaeth 3 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | Dwy flynedd | Tair blynedd | Pedair blynedd | Pum mlynedd | Dros bum mlynedd | Cyfanswm |
| Hyd yr ariannu | 75.00% 9 | 0.00% 0 | 16.67% 2 | 0.00% 0 | 8.33% 1 | 0.00% 0 | 12 |

| Gwasanaeth 4 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | Dwy flynedd | Tair blynedd | Pedair blynedd | Pum mlynedd | Dros bum mlynedd | Cyfanswm |
| Hyd yr ariannu | 28.57% 2 | 14.29% 1 | 28.57% 2 | 14.29% 1 | 0.00% 0 | 14.29% 1 | 7 |

| Gwasanaeth 5 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | Dwy flynedd | Tair blynedd | Pedair blynedd | Pum mlynedd | Dros bum mlynedd | Cyfanswm |
| Hyd yr ariannu | 0.00% 0 | 0.00% 0 | 100.00% 2 | 0.00% 0 | 0.00% 0 | 0.00% 0 | 2 |

| Gwasanaeth 6 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | Dwy flynedd | Tair blynedd | Pedair blynedd | Pum mlynedd | Dros bum mlynedd | Cyfanswm |
| Hyd yr ariannu | 0.00% 0 | 0.00% 0 | 100.00% 1 | 0.00% 0 | 0.00% 0 | 0.00% 0 | 1 |

C35. Dros y 12 mis nesaf beth ydych yn ei feddwl y bydd arian ar gyfer eich gwasanaethau'n debygol o'i wneud?

| Gwasanaeth 1 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Aros yr un fath | Cynyddu | Gostwng | Dod i ben | Dim yn gwybod | Cyfanswm |
| Diogelwch Arian | 47.37% 9 | 10.53% 2 | 5.26% 1 | 10.53% 2 | 26.32% 5 | 19 |

| Gwasanaeth 2 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Aros yr un fath | Cynyddu | Gostwng | Dod i ben | Dim yn gwybod | Cyfanswm |
| Diogelwch Arian | 58.33% 7 | 8.33% 1 | 8.33% 1 | 8.33% 1 | 16.67% 2 | 12 |

| Gwasanaeth 3 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Aros yr un fath | Cynyddu | Gostwng | Dod i ben | Dim yn gwybod | Cyfanswm |
| Diogelwch Arian | 33.33% 3 | 0.00% 0 | 11.11% 1 | 0.00% 0 | 55.56% 5 | 9 |

| Gwasanaeth 4 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Aros yr un fath | Cynyddu | Gostwng | Dod i ben | Dim yn gwybod | Cyfanswm |
| Diogelwch Arian | 60.00% 3 | 0.00% 0 | 0.00% 0 | 0.00% 0 | 40.00% 2 | 5 |

| Gwasanaeth 5 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Aros yr un fath | Cynyddu | Gostwng | Dod i ben | Dim yn gwybod | Cyfanswm |
| Diogelwch Arian | 0.00% 0 | 50.00% 1 | 0.00% 0 | 0.00% 0 | 50.00% 1 | 2 |

| Gwasanaeth 6 | Aros yr un fath | Cynyddu | Gostwng | Dod i ben | Dim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelwch Arian | 50.00%<br>1 | 0.00%<br>0 | 0.00%<br>0 | 0.00%<br>0 | 50.00%<br>1 | 2 |

Sylwadau

- Methu gwarantu y bydd arian llywodraeth leol yn parhau. Caiff ei gadarnhau o un flwyddyn i'r nesaf. Bydd arian y flwyddyn gyntaf yn dod i ben.
- Eleni rydym yn gweithredu ar ostyngiad ariannol o 10%
- Gyda chyflwyno'r ddeddf newydd, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, rydym yn parhau'n ansicr ynghylch pa gynlluniau sydd gan ein Hawdurdod Lleol o ran cynllunio ac ariannu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
- Yn disgwyl am ymrwymiad gan yr Awdurdod Lleol
- Ein hariannu gan Grant Cydraddoldeb a Cynhwysiad 2014 – 2017. Ni wyddys a fydd hwn ar gael ar ôl 2017

C36. Sut caiff eich gwasanaethau eu hariannu?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaethau Elusennol | 40.9% | 9 |
| Awdurdod Lleol | 59.1% | 13 |
| Ymddiriedolaethau Iechyd | 27.3% | 6 |
| Arian ar y cyd gan yr Awdurdod Lleol ac Iechyd | 4.5% | 1 |
| Llywodraeth Cymru | 18.2% | 4 |
| Codi arian a rhoddion | 27.3% | 6 |
| Arianwyr grant | 31.8% | 7 |
| Arall | 13.6% | 3 |
| Arall (nodwch) | | 4 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

Arall

- Cwmni sector preifat - MHC
- Eon
- McMillan
- Sefydliad Ysgyfaint Prydain

C37. Rhowch wybod i ni os oes rhywbeth arall yr hoffech ei rannu am yr elfennau hyn o'ch gwasanaeth.

Angen diogelwch ar gyfer arian i fedru cynnig gwasanaeth parhaus – e.e. tair blynedd

C38. Yn eich barn broffesiynol, beth sydd yn rhaid digwydd i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau eirioli annibynnol?

- Diogelu arian a chynllunio tymor hir go iawn
- Arian wedi'i warantu
- Mwy o ddiogelu arian
- Mae angen i eiriolaeth annibynnol gael ei hariannu gan y llywodraeth ym mhob Sir
- Eu bod yn cael eu hariannu'n fwy cydlynol a diogel
- Mwy o arweiniad statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau eirioli cyffredinol
- Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gweithio'n agosach gydag eiriolwyr annibynnol y trydydd sector ac yn darparu arian cynaliadwy
- Ymddiriedolaethau elusennol ac arian a warentir y sector cyhoeddus
- Safonau ansawdd yn cael eu cynnal a Marciau Ansawdd yn cael eu cymeradwyo.
- Mae'r llywodraeth yn cydnabod ei bwysigrwydd ond angen rhoi rhyw gymaint o ddiogelwch gydag arian tymor hir ar gyfer anghenion tymor hir. Fe'i dyfynnir yn y Ddeddf Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant. Felly mae angen i'r llywodraeth ganolog a llywodraeth leol ddechrau rhoi cefnogaeth ariannol i wasanaeth y mae dirfawr angen amdano ond sydd yn cael ei danariannu.
- Arian cysylltiedig go iawn
- Rhagor o arian
- Dealltwriaeth go iawn ac arian cadarn am dair – bum mlynedd wedi'i wreiddio yn y gymuned
- Mae angen i ni ystyried yn ddifrifol ganlyniadau gan bartneriaid sy'n cyflawni'r gwasanaeth, yn erbyn gwerth am arian, anghenion pobl hŷn, dylanwadau allanol cau gwelyau ysbyty / cartrefi preswyl a sut dylai lleisiau pobl hŷn gael eu clywed. Mae angen i ni amlygu'r ffaith fod pobl hŷn yn cael eu cam-drin ar draws Cymru. Mae angen i ni hefyd amddiffyn ein cenhedlaeth hŷn a chynnig cefnogaeth yn erbyn achosion o dwyll. Mae angen i ni hefyd roi i bobl hŷn yr offer iddynt allu fynd ar lein yn saff a diogel er mwyn cael at fudd-daliadau, cyfleoedd gwaith ar lein, ar adeg pryd mae cyfleusterau cyhoeddus, megis llyfrgelloedd, yn cau.
- Sicrhau arian yn amhenodol yn unol â gofynion statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015
- Contractau o dair blynedd o leiaf ac, ar ryw bwynt, gydnabod y gallai cyflogau a chadw staff ddigon posib fod yn broblem oni cheir cynnydd mewn chwyddiant mewn oes contract pum mlynedd.
- Mae angen i arian y llywodraeth a llywodraethau lleol ddod ar gael er mwyn ariannu gwasanaethau eirioli.
- Arian uniongyrchol o Lywodraeth Cymru

C39. Pa lefel o wybodaeth sydd gennych am Ran 10, 'Gwasanaethau Eirioli' yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Ardderchog | 36.4% | 8 |
| Da | 50.0% | 11 |
| Cyfyngedig | 13.6% | 3 |
| Dim | 0.0% | 0 |
| Arall (nodwch) | | 2 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

C40. Ydych chi wedi cael trafodaethau gyda'ch comisiynwyr lleol am ariannu gwasanaethau eirioli annibynnol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Do | 54.5% | 12 |
| Naddo | 45.5% | 10 |
| Ansicr | 0.0% | 0 |
| Arall (nodwch) | | 1 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

C41. Ydych chi'n codi ar eich cleientau am wasanaethau ar hyn o bryd?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Ydym | 0.0% | 0 |
| Nac ydym | 100.0% | 22 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

C42. Beth yw eich barn ar godi ar eich cleientiaid am eich gwasanaeth?


- Ni ddylai eiriolaeth fyth fod yn gost ar yr unigolyn
- Dim yn meddwl y dylid codi
- Ni ddylai ddigwydd
- Dylai eiriolaeth fod yn rhad ac am ddim i bobl fregus
- Pe byddid yn codi amdano, byddai'n peryglu pwrpas eiriolaeth annibynnol a mynediad agored.
- Annerbyniol
- Ni allai'r rhan fwyaf ei fforddio; felly rhaid iddo fod yn rhad ac am ddim
- Mae'n wasanaeth sylfaenol; felly ni ddylid codi amdano
- Ni ddylai hyn ddigwydd gan fod llawer o gleientiaid ar fudd-daliadau a byddent yn methu fforddio hyn
- NID yw hyn yn dderbyniol

- Dylai'r gwasanaeth fod yn rhad ac am ddim
- Dim yn meddwl y dylid codi am eiriolaeth
- Pe byddem, byddai'n mynd yn groes i egwyddorion eiriolaeth annibynnol
- Yn gwbl annerbyniol ac yn erbyn ethos sylfaenol eiriolaeth
- Byddai'n heriol iawn codi ar y rhai mwyaf bregus ac nid yw'n rhywbeth yr hoffem ei wneud
- Dylai hwn fod yn wasanaeth sy'n rhad ac am ddim


C43. Ydi'ch eirolwr (eiriolwyr) wedi cefnogi pobl sydd wedi'u cam-drin yn y 12 mis diwethaf?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Ydynt | 100.0% | 22 |
| Nac ydynt | 0.0% | 0 |
| Dim yn gwybod | 0.0% | 0 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

C44. Gyda pha fathau o gamdriniaeth ydych chi wedi cefnogi pobl hŷn yn y 12 mis diwethaf?



C45. Lle ddigwyddodd y gamdriniaeth?




C46. Ydych chi'n hyderus yn cyfeirio at Dîm Amddiffyn Oedolion yr Awdurdod Lleol ?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Ydw | 100.0% | 22 |
| Nac ydw | 0.0% | 0 |
| Efallai | 0.0% | 0 |
| Sylw (eglurwch os 'nac ydw' neu 'efallai') | | 0 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

C47. Oes gan eich sefydliad bolisi a gweithdrefn ddiogelu?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Oes | 100.0% | 22 |
| Nac oes | 0.0% | 0 |
| Dim yn gwybod | 0.0% | 0 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

C48. Oes gan eich sefydliad reolwr dynodedig â chyfrifoldeb am ddiogelu?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Oes | 95.5% | 21 |
| Nac oes | 4.5% | 1 |
| Dim yn gwybod | 0.0% | 0 |
| Sylw | | 0 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

C49. Ydi'ch staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn oedolion?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Do | 100.0% | 22 |
| Naddo | 0.0% | 0 |
| Dim yn gwybod | 0.0% | 0 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

C50. Os ateboch 'do' i'r cwestiwn blaenorol, sut cafodd ei ddarparu?

| **Os ateboch 'do' i'r cwestiwn blaenorol, gafodd o'i ddarparu…** | | |
|---|---|---|
| **Opsiynau Ateb** | **Canran yr ymateb** | **Cyfrif yr ymateb** |
| Yn fewnol | 22.7% | 5 |
| Gan yr awdurdod lleol | 68.2% | 15 |
| Arall | 9.1% | 2 |
| Arall (nodwch) | | 3 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 22 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 0 |

C51. Ydi'ch gwirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn oedolion

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Ydynt | 75.0% | 9 |
| Nac ydynt | 25.0% | 3 |
| Dim yn gwybod | 0.0% | 0 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 12 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 10 |

C52. Ydi'ch sefydliad yn aelod o'r pwyllgor lleol amddiffyn oedolion?

| Opsiynau Ateb | Canran yr ymateb | Cyfrif yr ymateb |
|---|---|---|
| Ydi | 38.1% | 8 |
| Nac ydi | 61.9% | 13 |
| Dim yn gwybod | 0.0% | 0 |
| Sylw | | 3 |
| | *Cwestiwn a atebwyd* | 21 |
| | *Cwestiwn a basiwyd heb ei ateb* | 1 |

Sylwadau

- Heb gael gwahoddiad

- Cawn ein cynrychioli bellach ar fwrdd diogelu Gogledd Cymru gan ein bod yn teimlo ei fod yn bwysig y dylai IMHA ac IMCA fod wrth y bwrdd

- Yn gweithio ar ddod yn rhan ohono ar hyn o bryd.

C53. Rhowch wybod i ni os oes rhywbeth arall yr hoffech ei rannu am yr elfennau hyn o’ch gwasanaeth.

Rydym yn gweithio’n agos gyda’r Awdurdodau Lleol sydd â swyddog dynodedig ag amserlen ac mae cyswllt uniongyrchol yn bosib yn ogystal â thrwy sianelau arferol.

C54. Os oes gennych ragor o sylwadau i’w gwneud a fyddech cystal â llenwi’r blwch isod.

Dim wedi dod i law